Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Sant Curig
# Heol y Coleg
# Y Barri
# CF62 8HQ

# Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sant Curig

Lleolir Ysgol Gynradd Sant Curig yng nghanol tref y Barri ym Mro Morgannwg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 425 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 55 oed meithrin. Mae 16 dosbarth un oed yn yr ysgol gan gynnwys dau ddosbarth ar gyfer plant meithrin.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (18%). Mae tua chwarter y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 14% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2006. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Sant Curig yn gymuned hynod ofalgar lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae safonau lles, ymddygiad ac agweddau bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli yno. Caiff disgyblion lais amlwg yng ngwaith yr ysgol. Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a symbylus sy'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, annibynnol.

Mae ethos Cymreig cryf i'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ardderchog ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, i ddefnyddio eu dychymyg ac i gymryd rhan mewn perfformiadau, yn cyfrannu'n hynod o effeithiol i wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwella yn ganolog i ethos yr ysgol. Nodwedd arbennig yw'r pwyslais cryf ar ddatblygu staff o bob lefel i fod yn arweinwyr strategol. Mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gref lle mae staff yn wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg yn frwdfrydig a hyderus ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

A3 Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgolyn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae cynllunio strategol yn gwella lles ac agweddau disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i lawer ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill. Mae medrau llafar disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym, er enghraifft wrth drafod eu hymchwiliad i wahanol ddeunyddiau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn cyfathrebu'n hyderus ac yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn defnyddio geirfa ymestynnol i greu effaith, er enghraifft wrth drafod effaith bwlian ar hunanddelwedd plentyn. Maent yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adnabod geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder ac ystyr. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio'n synhwyrol at nodweddion penodol, er enghraifft wrth drafod arddull cerddi T. Llew Jones. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am wahanol ymgyrchwyr enwog fel Emmeline Parkhurst.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth greu llyfryn ar y thema 'Pan fydda i yn fawr'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio geirfa aeddfed yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth greu erthyglau papur newydd neu wrth ddangos empathi tuag at fywyd glöwr, wedi ymweliad â Phwll Mawr. Maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn hyblyg mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon mewn meysydd a phynciau eraill. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio eu medrau'n hyderus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth ddidoli defnyddiau yn ôl gwead neu wrth greu pictogram o'u hoff ddinosor. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, gan gymhwyso'r hyn maent yn ei ddysgu mewn gwersi mathemateg yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft trwy ddefnyddio graddfa ar fap i ddarganfod pellter o'r Barri i Ŵyl y Gelli. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau trin data wrth archwilio effaith gweithgaredd corfforol ar guriad y galon.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n fuddiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llechen yn hyderus i gofnodi a rhannu eu gwaith gydag oedolion ac wrth ddefnyddio rhaglen animeiddio i greu ffilm syml. Mae hyn yn atgyfnerthu eu medrau llafar yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar gyfer y prosiect 'Llyfrgelli'. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn defnyddio taenlenni yn briodol i gofnodi data, er enghraifft wrth greu graff am farwolaethau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safon lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda. Mae bron pob un yn frwdfrydig, yn hynod serchus a chwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae ganddynt falchder amlwg yn yr ysgol, eu cymuned a'u hiaith. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eraill. Enghraifft o hyn yw'r ffordd aeddfed mae'r disgyblion hŷn a'r 'mets maes' yn dangos gofal arbennig am eu cyfoedion iau ar y buarth ac wrth symud o amgylch yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn mynychu'n gyson ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd amlwg tuag at ddysgu. Maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder, gan fod yn hyderus bod y staff yn gwrando arnynt. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli yno. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu ymarferol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'w dysgu. Er enghraifft, trwy'r strategaeth 'Taith y Tymor', maent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni. Maent yn dewis llwybrau dysgu dychmygus er mwyn cwblhau tasgau estynedig. O ganlyniad, maent yn ymroi'n llwyr i'w tasgau ac yn cydweithio'n hynod lwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn aeddfed ac yn dangos brwdfrydedd egnïol. Enghraifft ragorol o effaith hyn yw gwaith llythrennedd a rhifedd o safon uchel iawn o fewn y prosiect 'Llyfrgelli'.

Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, hyderus ac annibynnol sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Enghraifft wych o hyn yw'r ffordd y mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn ymateb yn bositif i strategaeth meddylgarwch, yn syth ar ôl cinio. O ganlyniad, mae bron pob un yn barod i ddechrau gweithgareddau'r prynhawn yn frwdfrydig, yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau yn eu gwaith.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella'r ysgol. Maent yn gwneud hyn drwy gyfrwng amrywiaeth o bwyllgorau, gan gynnwys y cyngor ysgol. Enghraifft arbennig o hyn yw gwaith y cyngor ysgol wrth symleiddio geirio'r pedwar diben dysgu'r cwricwlwm newydd er mwyn i ddisgyblion iau gyfrannu'n fwy effeithiol i drafodaeth ar ba strategaethau dysgu sy'n fwyaf perthnasol iddyn nhw. Mae disgyblion yn cyfrannu'n gyson tuag at elusennau amrywiol, er enghraifft y digartref, hosbis Tŷ Hafan a chefnogi banciau bwyd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o gadw'n ffit yn rheolaidd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwahaniaethu'n hyderus rhwng bwydydd iach a phethau nad ydynt mor iachus iddynt, a sut mae gwahanol fwydydd yn effeithio ar y corff. Mae'r disgyblion hŷn yn deall bod ymarfer y corff yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Enghraifft dda o hyn yw parodrwydd disgyblion i gyfranogi'n frwdfrydig yn y clwb rhedeg amser cinio a'r clwb rygbi.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r holl staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu gefnogol a gweithgar. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol a datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli, a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Darperir cyfleoedd cyson i'r disgyblion gydweithio ag artistiaid celfyddydol amrywiol yn cynnwys cerddorion, cwmnïau drama ac arlunwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymweld â theatrau a sinemâu cyfagos sy'n fodd o gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u datblygiad fel unigolion cyflawn. Yn ogystal, mae'r staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i'r disgyblion ymweld â chanolfannau preswyl ac i gynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion a thuag at eu paratoi i fod yn ddinasyddion, hyderus, annibynnol ac aeddfed y dyfodol.

Trwy gydweithio effeithiol ac arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion dderbyn amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn ac mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o'u tasgau'n

llwyddiannus.  Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu.  Er, ar adegau, mae oedolion yn tueddu i orgyfarwyddo gweithgareddau ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi ymateb yn frwdfrydig wrth addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd yng Nghymru.  Maent yn ystyried anghenion a diddordebau unigolyn drwy themâu trawsgwricwlaidd medrus sy'n cynnwys mewnbwn a llais y disgybl yn llwyddiannus.  Mae hyn yn sicrhau ystod o brofiadau dysgu sy'n ysgogi'r disgyblion i ymroi'n llwyr i'w dysgu.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol.  Maent yn cysylltu eu gwersi'n fedrus â dysgu blaenorol ac yn esbonio cysyniadau newydd yn glir.  Lle mae'r addysgu ar ei orau, yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, mae'r athrawon yn cynllunio'n greadigol iawn i sbarduno ac ysgogi disgyblion yn effeithiol iawn.  Mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu.  Mae'r athrawon yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn i ddatblygu medrau'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion o allu uwch.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol.  Yn yr ychydig o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r athrawon bob tro'n herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Mae cyfleoedd cynhwysfawr i ddatblygu'r medrau hyn mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.  Enghraifft wych o hyn yw gwaith disgyblion Blwyddyn 6 wrth drefnu Gŵyl Llyfrgelli.  Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh mewn gwersi ffurfiol.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth effeithiol i ddisgyblion.  Maent yn gwneud hyn mewn modd adeiladol sy'n magu hunanhyder disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith.  Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant.  Mae hyn yn helpu disgyblion i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt ei gyflawni mewn tasgau er mwyn llwyddo.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn effeithiol iawn.  Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion a rhoddir ffocws clir ar sicrhau'r amodau gorau fel bod pob un yn cyflawni'n llwyddiannus.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae'r ysgol yn flaengar o ran hyrwyddo lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion ac wedi sefydlu nifer o strategaethau effeithiol iawn.  Enghreifftiau arbennig o hyn yw'r sesiwn ar ddechrau'r dydd i ddisgyblion bregus, y ddarpariaeth maeth drwy'r 'Clwb Cwtsh' a'r rhaglen 'Cŵl Wedi Cinio' sy'n canolbwyntio ar hybu meddylgarwch ar

draws dosbarthiadau’r cyfnod sylfaen. Mae’r gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblion i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder ynddynt eu hunain, yn deall pwysigrwydd rhannu pryderon ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, yn enwedig eu medrau cerddorol, yn ardderchog. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus disgyblion drwy weithdai celf a cherdd a gwahodd awduron a chyfansoddwyr i hybu dealltwriaeth disgyblion o gelfyddyd Gymreig gyfoes. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a chymryd rhan mewn cyngherddau ac i gystadlu mewn eisteddfodau, gan ddatblygu eu hunanhyder, a’u balchder yn eu hunain. Nodwedd arbennig yw’r cyfle a gânt i gydweithio â chantorion proffesiynol, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer sioe’r Nadolig sydd hefyd yn datblygu eu gallu i gydweithio ag eraill.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Elfen eithriadol yw’r pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol fel gonestrwydd, caredigrwydd a chyfeillgarwch a dyfalbarhau personol drwy strategaeth lles yr ysgol. Mae’r sylw gofalgar mae’r staff yn ei roi i ystyried llais y disgybl a hawliau plant yn cyfrannu’n effeithiol at gyfleoedd i’r disgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth. Fe amlygir hyn yn y ffordd mae’r disgyblion yn ymdrin â’i gilydd. Mae’r staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, er enghraifft am barchu pob unigolyn. Wrth astudio effaith gwahanol grefyddau a diwylliannau ar draws y byd, caiff y disgyblion gyfle gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o’r byd ehangach a magu parch tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd.

Mae’r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dod yn ddinasyddion gweithgar drwy gymryd rhan mewn grwpiau dylanwadol fel y cyngor ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar waith yr ysgol, fel sefydlu’r ‘Ffatri Inc’ i hybu ysgrifennu annibynnol ac wrth wneud newidiadau i bolisi’r ysgol ynglŷn â bwlio.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym. Mae’r staff yn trefnu ystod eang o raglenni ymyrraeth amrywiol a chyfoethog sy’n ennyn eu diddordeb ac sy’n anelu i fodloni anghenion pob disgybl. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryno a chlir. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu’n gyson ar y cyd â’r disgyblion a’u rhieni gan eu haddasu’n bwrpasol yn ôl yr angen. Mae’r ysgol yn cydweithio’n glòs ag amrywiaeth o asiantaethau er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion a’u rhieni.

Mae perthynas gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni a’r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu’n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau’r ysgol yn ogystal â themâu’r tymor a datblygiadau cyfredol fel y strategaethau rhifedd. Cânt hefyd gyfleoedd cyson i gyfrannu at ystod o weithgareddau’r ysgol er enghraifft, wrth gynorthwyo gyda’r ‘Ardd Wyllt’ ac arwain sesiynau coginio, crefft a boreau coffi fel rhan o weithgarwch ‘Y Clwb Cwtsh’. Mae hyn yn sicrhau ymglymiad gwerthfawr y rhieni yn addysgu eu plentyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth dda am yr hyn sydd angen ei wneud i gadw'n iach. Mae'r cyfleoedd buddiol, ynghyd â'r ystod o adnoddau allanol pwrpasol ar gyfer sesiynau ymarfer corff a chlybiau chwaraeon, yn cyfrannu'n llwyddiannus at les disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth flaengar a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn ac mae'n angerddol am y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae'n hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth o gymuned ddysgu gynhwysol, gyfeillgar, sy'n canolbwyntio ar Gymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau. Mae'r pwyslais strategol ar ddatblygu lles disgyblion yn arbennig, er enghraifft drwy weithgareddau cefnogol fel 'Dechrau Da', y 'Clwb Cwtsh' a'r 'Cŵl wedi Cinio'. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn wrth helpu disgyblion i ganolbwyntio ar eu gweithgareddau yn barhaus mewn awyrgylch gefnogol a gofalgar. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos awch a brwdfrydedd wrth ymgymryd â'r amrediad eang o weithgareddau'r ysgol, yn gwneud eu gorau ac yn cyflawni'n dda.

Mae strwythur rheoli'r ysgol o safon uchel iawn ac wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae'r pennaeth yn arbennig o effeithiol wrth nodi arbenigedd a chryfderau staff, ac o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n llwyddiannus iawn gan sefydlu tîm cryf o arweinwyr ar bob lefel ar draws yr ysgol. Mae aelodau'r staff yn gwerthfawrogi ei hymddiriedaeth ynddynt i ddatblygu meysydd dysgu ac yn defnyddio eu cymwysterau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda. Mae cyfathrebu eglur rhwng yr holl staff a gweithdrefnau sy'n sicrhau bod pawb yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref lle mae staff yn wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg yn frwdfrydig a hyderus ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn. Enghraifft wych o hyn yw'r ddarpariaeth o brofiadau diddorol ac arloesol sy'n deillio o fewn gŵyl lenyddol yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol a phenodol iawn ar waith i lywio datblygiad parhaus y staff ac i rannu arfer dda. Enghraifft lwydiannus o hyn yw'r gwaith o arwain a chydweithio ag ysgolion cyfagos ar brosiectau penodol fel hyrwyddo lles disgyblion a datblygu adnoddau o ansawdd uchel i wella medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at wella deilliannau'r disgyblion, yn enwedig eu medrau darllen.

Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae trefniadau hunanwerthuso yn llwyddiannus ac yn canolbwyntio'n glir ar safonau ac effaith y darpariaethau ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae trefniadau clir, dealladwy a phenodol ar gyfer adolygu cynnydd a nodi agweddau sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i ddatblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn glir am y blaenoriaethau mae angen iddynt fynd i'r afael â nhw, ac mae ffocws cryf ar godi safonau a chryfhau'r ddarpariaeth yng

nghynllun gwella'r ysgol.  Mae'r camau gweithredu, a'r defnydd o adnoddau, yn effeithiol wrth sicrhau gwelliant mewn meysydd allweddol.  Enghraifft o hyn yw'r gwaith effeithiol sydd wedi ei gyflawni wrth ddatblygu rhaglen ddyddiol a phwrpasol o weithgareddau drilio iaith sy'n cael ei chyflwyno o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6.  Mae disgyblion wedi ymateb yn frwdfrydig i'r rhaglen ac mae effaith glir i'w gweld yn y cynnydd mewn safonau yn y Gymraeg, yn enwedig o ran llefaredd disgyblion.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth hynod o drylwyr am berfformiad yr ysgol ac mae ganddynt ran flaenllaw yn y drefn o werthuso effaith y gwahanol weithgareddau ar safonau a lles y disgyblion.  Maent yn ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi, craffu ar gynlluniau, siarad â disgyblion a nodi cyfraniad mentrau penodol ar safonau a lles disgyblion.  Mae hyn yn gryfder, ac yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a gosod arweiniad a strategaethau clir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach.  Mae manylder eu harsylwadau a'r parodrwydd i herio'r ysgol er mwyn sicrhau gwelliant yn nodwedd gref iawn.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at godi safonau a lles y disgyblion.  Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwelliant a hefyd i sicrhau bod yna gydbwysedd da o weithgareddau cefnogol i bob disgybl.  Gwneir defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi gweithgareddau lles, emosiynol a chymdeithasol yn ogystal â chynnal amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth i gefnogi datblygiad ieithyddol a mathemategol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019